Ein cyf/Our ref  ATISN 10685

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Medi 2016

Annwyl ,

**Cais am Wybodaeth – ATISN 10685**

Ysgrifennais atoch ar 24 Awst ynglŷn â'ch cais am wybodaeth. Yn eich cais roeddech yn gofyn am:

1. Y swm a fuddsoddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y ffilm Take Down/Billionaire Ransom.
2. Beth yw'r dyfodol ar gyfer y gronfa hon (Y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau) e.e. pa ffilmiau sy'n cael eu cynllunio a fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru?

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod peth o'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani yn eich cais yn esempt o'r gofynion datgelu o dan adran 29(1)(a) – Buddiannau Economaidd ac o dan adran 43(2), Buddiannau Masnachol, o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r rhesymau llawn dros ddefnyddio'r esemptiadau hyn i'w gweld yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

Wrth ymateb i ran o gwestiwn 2, gallaf ddweud wrthych fod y Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau yn agored ar hyn o bryd a bod gwybodaeth am ddatgan diddordeb ac am fanylion y gronfa i'w gweld yma: http://pinewoodpictures.com/funding/

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn.  Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu FreedomOfInformationOfficer@wales.gsi.gov.uk.

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Tim Rhyddid Gwybodaeth
yr Economi a'r Seilwaith
Llywodraeth Cymru
Trefforest - Canolfan QED
Y Brif Rodfa
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest
Pontypridd
CF37 5YR
EconomyandinfrastructureFOI@wales.gsi.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gennych yr hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Information Commissioner’s Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi mynd drwy'n proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

**ATISN 10685 – Cais am Esemptiad**

Cafodd penderfyniadau ynghylch peidio â datgelu eu gwneud gan roi sylw dyledus i'r esemptiadau a nodir o dan Adran 29(1)(a) ac adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**<u>Adran 29(1)(a) – buddiannau economaidd</u>**

Mae'r esemptiad hwn yn nodi (1) bod gwybodaeth yn wybodaeth sydd wedi'i hesemptio pe byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu'n debygol o niweidio – (a) buddiannau economaidd y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

Mae adran hon yn esemptiad amodol sy'n destun prawf lles y cyhoedd. Er mwyn imi ddefnyddio'r esemptiad hwn, mae'n rhaid imi ddangos bod y lles i'r cyhoedd sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn fwy na'r lles i'r cyhoedd a fyddai'n deillio o'i rhyddhau. Rwyf felly wedi ystyried effeithiau datgelu'r wybodaeth i'r byd a'r betws gan y byddai'r wybodaeth ar gael i bawb, nid dim ond y person sy'n gofyn amdani. O'r herwydd, wrth ystyried eich cais, rwyf wedi ystyried effeithiau ehangach y datgelu yn hytrach nag unrhyw fuddiant personol a allai fod gennych o gael yr wybodaeth.

**Prawf Lles y Cyhoedd**

Rwyf yn cydnabod bod y cyhoedd yn awyddus i weld y Llywodraeth yn gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw ac y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn helpu'r cyhoedd i ddeall y penderfyniadau hynny'n well. Cydnabyddir hefyd fod y cyhoedd yn awyddus i weld sut y bwriedir defnyddio arian cyhoeddus, neu sut y cafodd ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn sicrhau'r gwerth gorau posibl o bwrs y wlad.

Fodd bynnag, yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais yw manylion am y cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) i gwmni cynhyrchu, a hefyd fanylion am unrhyw fuddsoddiad posibl gan LlC yn y dyfodol. Mae dyletswydd ar LlC i ddiogelu'r budd ariannol sydd ganddi yn ei buddsoddiadau ym maes ffilm. Drwy ddatgelu maint y cyllid a fuddsoddwyd gan LlC yn y ffilm, mae risg y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar allu Pinewood i negodi'r cytundebau masnachol gorau posibl ar gyfer LlC ar brosiectau a ariennir ganddi yn y dyfodol.

Bydd cwmnïau'n teimlo y byddant yn gallu negodi'r un lefel o fuddsoddiad pan ddylem fod yn negodi er mwyn cael gwell gwerth am arian ar ein buddsoddiad. Bydd hefyd yn rhoi mantais gystadleuol i ranbarthau sy'n cystadlu â ni, h.y. Gogledd Iwerddon, oherwydd y byddant yn cael amcan o faint o gyllid y bydd ei angen er mwyn cynnig mwy na LlC wrth iddi geisio sicrhau bod cynyrchiadau'n dod i Gymru yn y dyfodol.

Rwyf yn fodlon y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon i'r cyhoedd yn debygol o gael effaith andwyol ar fuddiannau economaidd LlC. Y rheswm dros hynny yw y byddai'r wybodaeth, yn ôl pob tebyg, o ddiddordeb i'r cwmnïau hynny mewn rhanbarthau eraill sy'n cystadlu yn ei herbyn am fusnes/buddsoddiad tebyg.

Er y byddai'r wybodaeth hon o ddiddordeb i'r cwmnïau sy'n cystadlu yn ei herbyn ac i gwmnïau cynhyrchu, nid wyf o'r farn y byddai o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol. Nid wyf o'r farn y byddai hwyluso'r math hwn o fantais gystadleuol annheg er lles y cyhoedd yn gyffredinol. Er fy mod yn derbyn y bydd gan y cyhoedd bob amser ddiddordeb yng ngwaith LlC am ei bod yn gorff cyhoeddus, ac y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn tystio i'n parodrwydd i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd yr ydym yn gweithio, nid wyf o'r farn y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon o les mawr i'r cyhoedd.

Gwn fod gwybodaeth, gan amlaf, yn troi'n llai sensitif ymhen amser, felly gallai oedran yr wybodaeth, neu amseru'r cais, fod yn berthnasol wrth benderfynu a ddylid esemptio'r wybodaeth neu wrth benderfynu a oes lles i'r cyhoedd. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, mae'r wybodaeth dan sylw yn wybodaeth gwbl gyfredol.

I gloi felly, ar ôl pwyso a mesur ac ystyried lles y cyhoedd, rwyf o blaid peidio â datgelu'r wybodaeth hon.

**<u>Adran 43 (2) – Buddiannau Masnachol</u>**

Cafodd penderfyniadau ynghylch peidio â datgelu eu gwneud gan roi sylw dyledus i'r esemptiadau a nodir o dan Adran 43(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r adran honno'n nodi bod gwybodaeth yn wybodaeth sydd wedi'i hesemptio pe byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n meddu arni).

Mae adran 43 yn esemptiad amodol (sy'n destun prawf lles y cyhoedd). Er mwyn imi ddefnydio'r esemptiad hwn, mae'n rhaid imi ddangos bod y lles i'r cyhoedd sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn fwy na'r lles i'r cyhoedd a fyddai'n deillio o'i rhyddhau. Rwyf felly wedi ystyried effeithiau datgelu'r wybodaeth i'r byd a'r betws, oherwydd y byddai'r wybodaeth ar gael i bawb, nid dim ond y person sy'n gofyn amdani. O'r herwydd, wrth ystyried eich cais, rwyf wedi ystyried effeithiau ehangach y datgelu yn hytrach nag unrhyw fuddiant personol a allai fod gennych o gael yr wybodaeth.

**Prawf Lles y Cyhoedd**

Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais yn cynnwys manylion ariannol sy'n gysylltiedig â chytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood Shepperton plc. Mae'r holl wybodaeth hon yn wybodaeth gyfredol a masnachol sensitif a phe byddai'n cael ei rhyddhau, byddai hynny'n debygol o niweidio buddiannau masnachol Stiwdios Pinewood Shepperton plc. Byddai unrhyw ddatgeliad yn niweidio eu gallu i sicrhau cytundebau gyda chynhyrchwyr a chyllidwyr eraill ac i gwblhau cytundebau gyda chronfeydd eraill yn unol â thelerau'r farchnad. Rwyf yn fodlon y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon i'r cyhoedd yn debygol o gael effaith andwyol ar y cwmni ac y byddai'n debygol o niweidio ei fuddiannau masnachol. Y rheswm dros hynny yw y byddai'r wybodaeth, yn ôl pob tebyg, o ddiddordeb i'r cwmnïau hynny mewn rhanbarthau eraill sy'n cystadlu yn ei erbyn am fusnes tebyg. Byddai hefyd yn rhoi gwybodaeth i gwmnïau cynhyrchu ffilmiau yn y dyfodol, oherwydd na ddylid defnyddio'r hyn a fuddsoddwyd mewn un ffilm yn gynsail ar gyfer un arall.